Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Perfformiad Strategol** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys SCC119** |
| **Dyddiad:** | **30 Ebrill 2025** |
| **Amser:** | **1.30pm – 4pm** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis<br>Y Dirprwy Brif Gwnstabl, Ifan Charles<br>Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Gary Phillips<br>Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams<br>Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans<br>Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau SCHTh, Alison Perry<br>Pennaeth Strategaeth a Pholisi SCHTh, Claire Bryant |
| **Hefyd yn bresennol:** | Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, Yr Uwch-arolygydd Dros Dro Louise Harries<br>Uwch-reolwr Perfformiad a Dadansoddeg, Lowrie Proctor<br>Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, yr Athro Ian Roffe<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cynghorydd Jonathan Grimes<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cynghorydd William Powell |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Beverley Peatling<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y CHTh bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu a oedd yn bresennol fel arsylwyr.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| SPB005 | Ymweliad â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w drefnu ar gyfer y CHTh. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Ymweliad wedi'i drefnu ar gyfer y CHTh ym mis Mai 2025. |
| SPB006 | SCHTh i drefnu sesiwn friffio i'r CHTh gan y Prif Arolygydd Gerallt Jones ynghylch datblygu ap diweddaru dioddefwyr. | **Ar y gweill**<br><br>Memo briffio wedi'i ddarparu i'r CHTh. Diweddariadau pellach a chyflwyniad i'w darparu i'r CHTh yn dilyn datblygiadau pellach i'r ap. |
| SPB007 | SCHTh i ddarparu gwybodaeth i'r CHTh ynghylch pa droseddau sydd wedi'u rhestru o dan 'troseddau rhyw eraill', a beth yw achosion y cynnydd yn nifer y 'troseddau rhyw eraill' a adroddir. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Gwybodaeth wedi'i darparu i'r CHTh. |
| SPB008 | Yr heddlu i ddarparu diweddariad cryno i'r CHTh ynghylch llwyth gwaith y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Gwybodaeth wedi'i darparu i'r CHTh. |
| SPB009 | Adborth gan y CHTh a SCHTh ynghylch y fframwaith perfformiad i'w rannu â'r Uned Gwella Gwasanaethau. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Adborth ar y fframwaith perfformiad wedi'i rannu â'r Uned Gwella Gwasanaethau. |

## 3. Perfformiad yr heddlu

### a) Adroddiad perfformiad yr heddlu

Dywedodd y CHTh y dylid creu dau adroddiad perfformiad yr heddlu – un sydd ar gael i'r cyhoedd, a'r llall at ddefnydd mewnol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i gynorthwyo cyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad Strategol, ac mae'n cynnwys data ar feysydd a nodwyd fel metrigau craidd rheolaidd, gyda ffocws penodol ar flaenoriaeth 1: cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth, Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd 2025–2029. Mae'r data yn yr adroddiad yn adlewyrchu cyfnod pedwerydd chwarter 2024–2025 (Ionawr 2025 – Mawrth 2025) oni nodir yn wahanol. Mae'r data cenedlaethol yn adlewyrchu cyfnod treigl o 12 mis (Chwefror 2024 – Ionawr 2025) oni nodir yn wahanol.

Holodd y CHTh i'r prif swyddogion ynglŷn â lle'r oedd yr heddlu mewn perthynas â'r newidiadau yr oeddent yn eu gweithredu gyda Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu mewn perthynas â phatrymau shifftiau a staffio? Dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai'r heddlu'n gweld manteision llawn y newidiadau yn gynnar y flwyddyn nesaf. Pan ymwelodd y Prif Gwnstabl â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn ddiweddar, roeddent yn gweld y garfan gyntaf o staff a oedd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hollgymhwysedd yn gweithio yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu,

gyda'r staff yn gallu newid rhwng danfon i alwadau digwyddiadau a thrin galwadau.

Y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer 101 yw bod uchafswm o 10% yn rhoi'r gorau i'w galwadau. Mae cyfradd rhoi'r gorau i alwadau 101 yr heddlu bellach yn 8%. Mae hyn islaw'r dangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol am y tro cyntaf ers cyflwyno'r dangosydd perfformiad allweddol. (Chwefror 2024 = 28.75% yn rhoi'r gorau i'w galwadau, Chwefror 2025 = 8%, sy'n cyfateb i ostyngiad o 72.2%).

Bu'r bwrdd yn trafod y cynnydd yn y galw y bydd yr heddlu yn ei weld dros gyfnod yr haf. Dywedodd y Prif Gwnstabl fod yr heddlu wedi cwblhau ymarfer mapio yn ddiweddar yn edrych ar pryd y mae'r galw ar Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu ar ei uchaf / isaf o un awr i'r llall ar gyfer yr heddlu, ac y gellir paratoi adnoddau'n briodol.

Bu'r bwrdd yn trafod y galwadau Gofal Cywir Unigolyn Cywir, a dywedodd y Prif Gwnstabl fod yr heddlu wedi gweld gostyngiad yn nifer y galwadau o ran camau 1 a 2. Bu'r bwrdd yn trafod y gwaith parhaus gyda phartneriaid cyn i gamau 3 a 4 gael eu rhoi ar waith.

Bu'r bwrdd yn trafod amseroedd ymateb o fewn yr heddlu, a'r amseroedd ymateb yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd. Mae amseroldeb ymateb yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r gwahaniaeth amser rhwng statws 3 (amser y cofnodwyd y digwyddiad cychwynnol) a statws 6 (amser cyrraedd y digwyddiad). Fel heddlu mae'r data'n dangos mai 15.9 munud yw'r gyfradd ymateb ar unwaith ar gyfartaledd, sydd o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) o 20 munud. Rhannodd y Prif Gwnstabl yr wybodaeth ddiweddaraf fod pob arweinydd Uned Reoli Sylfaenol wrthi'n rhoi cynllun ar waith ar sut i fynd i'r afael ag amseroedd ymateb.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch yr amser ymateb ar unwaith ar gyfer y galwadau hynny â'r math galwad terfynol o 'drosedd cam-drin domestig'. Ar draws yr heddlu, roedd yr amser ymateb ar unwaith ar gyfartaledd, yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025, o fewn y CLG ar 17.7 munud. Ceredigion oedd yr unig Uned Reoli Sylfaenol, yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025, ag amser ymateb ar unwaith ar gyfartaledd dros y CLG o 20 munud. Dywedodd y Prif Gwnstabl fod yr amrywiad o ran amseroedd ymateb mewn gwahanol siroedd wedi'i drafod mewn cyfarfod perfformiad yr heddlu yn ddiweddar, a bod darn o waith wedi'i gomisiynu i ddeall yr amrywiadau.

O ran uniondeb data troseddau, yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025 cynhaliwyd 3,593 o archwiliadau o gofnodi troseddau. Roedd 93.2% (3,347) o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn cydymffurfio. Wrth edrych yn benodol ar yr archwiliadau a gynhaliwyd ar ddigwyddiadau trais yn erbyn yr unigolyn, roedd y cydymffurfedd yn 89.8% (756/842). Roedd 93.1% (583/626) o'r archwiliadau a gynhaliwyd o dan y categori troseddau rhywiol yn cydymffurfio.

Mae fframwaith dyfarnu cywirdeb data trosedd y Swyddfa Gartref yn ystyried bod canlyniad archwiliad o 90%–94.9% yn 'broses gadarn ar y cyfan – ond mae

angen rhai gwelliannau'. Yn gyfatebol i'r gwelliannau a wnaed o ran cofnodi troseddau, mae gwelliant enfawr hefyd yn amlwg o ran cydymffurfedd yr heddlu â'r safon genedlaethol cofnodi troseddau (amseroldeb cofnodi troseddau o fewn 24 awr).

Holodd y CHTh ynghylch sut yr oedd yr heddlu'n bwriadu cael y ffigur uwchlaw 95%. Dywedodd y Prif Gwnstabl fod hyn wedi'i drafod yn y cyfarfod blaenorol ar berfformiad yr heddlu, a dywedodd y dylai canolbwyntio ar gofnodi troseddau mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol a chofnodi troseddau yn y pwynt cyswllt agosaf gynorthwyo â hyn.

Cofnodwyd 8,949 o droseddau yn ystod y pedwerydd chwarter, a oedd yn gynnydd o'i gymharu â'r un adeg y flwyddyn flaenorol, lle cofnodwyd 8,441 o droseddau.

Rhoddodd y Pennaeth Strategaeth a Pholisi yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffigurau mwyaf diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol hyd at flwyddyn galendr 2024 ynghylch cyfanswm y troseddau a gofnodwyd (ac eithrio twyll). Roedd yr heddlu i lawr 4%, roedd cyfartaledd Cymru i lawr 3%, ac roedd ffigurau Cymru a Lloegr i lawr 2%.  Nodwyd bod data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod nifer y troseddau wedi cynyddu o'i gymharu â'r cyfnod hwn y flwyddyn gynt, ond wedi gostwng o'i gymharu â'r ddau chwarter blaenorol.

O ran canlyniadau troseddau cyffredinol a gymhwyswyd yn ystod y cyfnod adrodd (pedwerydd chwarter 2024–2025), nodwyd bod y data'n dangos cyfradd cyhuddiadau o 9.76% (canlyniad 1) a chyfradd canlyniad cadarnhaol o 17.62% (canlyniadau 1 i 8 yn gynhwysol).

Bu'r bwrdd yn trafod y meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr heddlu, gan gynnwys siop-ladrad o fewn ardal yr heddlu, a nifer y digwyddiadau, y ffactorau a oedd yn arwain at siop-ladrad gan unigolion, ac atgyfeiriadau i'r cynllun dargyfeirio.

Yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025 cofnodwyd 417 o droseddau siop-ladrad. Nodwyd bod hyn yn ostyngiad o 116 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod gostyngiad amlwg i'w weld rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025. Roedd dadansoddiad o'r cyfnod hwn wedi'i gynnal ond ni welwyd unrhyw duedd amlwg i gyfrif am y gostyngiad.

Bu'r bwrdd yn trafod y cyfraddau canlyniad yn ymwneud ag achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Holodd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau a oedd gwaith pellach y gellid ei wneud i leihau nifer y dioddefwyr a oedd yn gwrthod neu'n tynnu'n ôl o gael cymorth. Nodwyd mai'r ganran ar y pryd, ym mis Mawrth 2025, oedd 44.64. Bu'r bwrdd yn trafod hyn.

Cofnodwyd cyfanswm o 1,640 o droseddau stelcio ac aflonyddu yn y pedwerydd chwarter. Nodwyd bod hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r un adeg y flwyddyn flaenorol lle cofnodwyd 1,679 o droseddau. Yn ystod pedwerydd chwarter 2024–

2025 cofnodwyd bod 526 o’r cyfanswm o 1,640 yn ymwneud ag achosion domestig (32%).

Cofnodwyd cyfanswm o 468 o droseddau rhyw yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025. Nodwyd bod hyn yn gynnydd o’r 317 a gofnodwyd ar yr un adeg y flwyddyn flaenorol. Yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025, cofnodwyd bod 16% (77) o’r rhain yn achosion domestig.

Nodwyd y byddai stelcio ac aflonyddu yn fath o drosedd a fyddai’n cael ei hychwanegu at yr offer ymchwilio yn seiliedig ar dystiolaeth tua diwedd y flwyddyn.

**Cam gweithredu: gwerthusiad o Ymgyrch Soteria i’w rannu â’r CHTh yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona**

Bu’r bwrdd yn trafod troseddau meddiant ar gyffuriau a masnachu cyffuriau. Cofnodwyd cyfanswm o 384 o droseddau meddiant ar gyffuriau ym mhedwerydd chwarter 2024–2025, a oedd yn gynnydd o’i gymharu â’r 320 a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Wrth archwilio canlyniad y cyhuddiadau (canlyniad 1) a datrysiad cymunedol (canlyniad 8) dros amser, gellir gweld newid clir yn unol â’r diweddariad i Bolisi Cyffuriau’r Heddlu, sy’n annog defnyddio datrysiadau cymunedol ac atgyfeiriadau i’r prosiect datrysiad troseddau cyffuriau y tu allan i'r llys.

Cofnodwyd 105 o droseddau masnachu cyffuriau yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025 a oedd, o’i gymharu â’r un adeg y flwyddyn flaenorol, yn gynnydd o 27 o droseddau a gofnodwyd.
Yn ystod pedwerydd chwarter 2024–2025, wedi’u cynnwys yn y ffigurau uchod roedd cyfanswm o 46 o droseddau mewnforio ac allforio.

Nodwyd y byddai gwerthusiad academaidd yn cael ei gwblhau yn ystod hydref 2025, ynghylch effeithiolrwydd polisi newydd yr heddlu gan annog defnyddio datrysiadau cymunedol ac atgyfeiriadau i’r prosiect datrysiad troseddau cyffuriau y tu allan i'r llys. Rhannodd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau yr wybodaeth ddiweddaraf fod cyfradd gadw o ryw 92% o’r rhai a aeth i gael triniaeth i ymgysylltu â’r gwasanaeth, a bod cyfradd gwelliant o 63% yn cael ei ddangos ar y pryd yn nibyniaeth unigolion ar sylweddau a gwelliant yn eu hiechyd meddwl.

Rhoddodd Louise Harries drosolwg o gofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dywedodd fod galwadau yn flaenorol yn ymddangos fel ymddygiad gwrthgymdeithasol ond y dylent fod wedi cael eu cofnodi fel trosedd. Nodwyd bod gwaith wedi’i wneud gyda Chanolfan Gyfathrebu’r Heddlu a bod digwyddiadau bellach yn cael eu cofnodi’n gywir, a dyna pam yr oedd nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng.

Bu’r bwrdd yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch ymgysylltu â’r gymuned gan dimau plismona ac atal bro, a’r amrywiol weithgareddau ymgysylltu â’r gymuned misol a chwarterol y dylai timau plismona ac atal bro

fod yn eu cwblhau.  Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â nifer y bobl yn mynychu cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned lleol.

Soniodd y CHTh am ymholiad a gafwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel Heddlu a Throseddu yn holi a oedd gan swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu fynediad at Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gadarnhau'r broses ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu a chael mynediad at Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.**

Holodd y Pennaeth Strategaeth a Pholisi i'r heddlu ynglŷn â sut yr oeddent yn mesur llwyddiant ac effaith digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned? Awgrymodd y Prif Gwnstabl ddarn o waith i edrych ar effaith y digwyddiadau ymgysylltu cymunedol, ac awgrymodd y CHTh y gallai SCHTh fod yn gofyn i gynghorau tref a chymuned am eu rhyngweithiadau â'r timau plismona ac atal bro.

**Cam gweithredu: SCHTh i siarad â chynghorau tref a chymuned i gasglu adborth ynghylch eu rhyngweithiadau â thimau plismona ac atal bro.**

Bu'r bwrdd yn trafod yr arolygon mewnweledidiad dioddefwyr a'r gwaith sicrhau safonau.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau at hawl dioddefwyr i gael eu hatgyfeirio at wasanaethau o fewn dau ddiwrnod. Yn dilyn cyfarfod Cod Ymarfer Dioddefwyr Cymru, yr oedd wedi cael gwybod nad oedd yr heddlu yn gallu casglu'r data penodol o gwmpas yr amserlen o ddau ddiwrnod.

Gellir gweld gwelliannau yn nifer y digwyddiadau pan gafodd llais y plentyn ei gofnodi. Bu cyfarfod Panel Sicrhau Ansawdd fis Tachwedd 2024 yn adolygu 'Llais y Plentyn' drwy gydol ymchwiliadau.

### b) Perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol

Bu'r bwrdd yn ystyried y cyflwyniad ynghylch perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol.  Nod y mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol yw helpu i ganolbwyntio ymdrech ar flaenoriaethau cenedlaethol allweddol, caniatáu mesur perfformiad a helpu i ddangos gwerth am arian mewn plismona. Adroddir ar fesurau procsi yr heddlu ar gyfer y 12 mis diweddaraf (Ebrill 2024 – Mawrth 2025) (oni nodir yn wahanol). Y cyfnod amser ar gyfer y set ddata gwaelodlin* yw Gorffennaf 2018 i Mehefin 2019.

Bu'r bwrdd yn trafod y ffigurau ynghylch lleihau llofruddiaethau a lladdiadau eraill, gyda 4 rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 (4 o'i gymharu â 7) o'r gwaelodlin*.

Bu'r bwrdd yn trafod yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch lleihau troseddau yn y gymdogaeth.

- Gostyngiad o 25.7% mewn bwrgleriaeth (preswyl) – gwaelodlin: 1,063 o'i gymharu ag 846 yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025.
- Cynnydd o 63.9% mewn dwyn o unigolion – gwaelodlin: 86 o'i gymharu â 141 yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025.
- Gostyngiad o 43.8% mewn dwyn o gerbydau – gwaelodlin: 562 o'i gymharu â 316 yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025.
- Cynnydd o 66.67% mewn lladrad (personol) – gwaelodlin: 63 o'i gymharu â 105 yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025.
- Cynnydd o 325.6% mewn lladrad cerbydau – gwaelodlin: 39 o'i gymharu â 166 yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025.

Gofynnodd y CHTh a oedd unrhyw arwydd y byddai'r llywodraeth newydd yn cadw'r mesurau perfformiad cenedlaethol presennol. Atebodd Lowrie Proctor nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach wedi bod ynglŷn â hyn.

Bu'r bwrdd yn trafod y ffigurau stopio a chwilio yn yr adroddiad. Dywedodd y Prif Gwnstabl mai'r cyfartaledd cenedlaethol oedd 25%.

- Cafwyd 3,705 o achosion stopio a chwilio mewn 12 mis hyd at fis Mawrth 2025; cyfradd ganfod o 24.7.
- Gwaelodlin* stopio a chwilio: 2,853 o achosion stopio a chwilio wedi'u cyflawni; cyfradd ganfod o 39%.

Nodwyd bod hwn yn gynnydd o 29.9% o ran maint, o'i gymharu â'r gwaelodlin, a gostyngiad o 36.7 o ran y gyfradd ganfod o'i gymharu â'r gwaelodlin.

Bu'r bwrdd yn trafod pwysigrwydd diwylliant yr heddlu a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo gyda'r digwyddiadau Ymgysylltiad a Disgwyliadau, a sefydlu diwylliant o berchnogaeth o fewn yr heddlu.

## 4. Trosolwg o wasanaethau a gomisiynwyd a chyllid grantiau

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau drosolwg a chyflwyniad i'r bwrdd ar gomisiynu a chyllido. Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o wasanaethau i ddioddefwyr gan gynnwys diweddariad ar y gwasanaeth newydd a ddarperir gan Cymorth i Ddioddefwyr a aeth yn fyw ar 1 Tachwedd 2024.

Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr gwnaed cyfanswm o 1,985 o atgyfeiriadau i Cymorth i Ddioddefwyr – llai nag a ragwelwyd, oherwydd problemau cofnodi caniatâd gan yr heddlu.

Gwelodd Cymorth i Ddioddefwyr ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau drwy gydol mis Rhagfyr. Dim ond achosion â chaniatâd penodol a oedd wedi'u hatgyfeirio yn ystod y cyfnod hwnnw. Nodwyd bod hyn yn cael ei fonitro gan fod Cymorth i Ddioddefwyr yn teimlo bod llawer o ddioddefwyr nad oedd yn cael eu hysbysu'n gywir am eu hawl i wasanaethau i ddioddefwyr, ac felly ddim yn cael eu hatgyfeirio'n briodol.

Nodwyd bod Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithio gydag adran TG Heddlu Dyfed-Powys i archwilio hyn, yn ogystal â rhai materion pellach ynghylch ansawdd data, gan gynnwys y canlynol:

- Achosion o gam-drin domestig nad oedd yn cynnwys hysbysiadau er diogelu'r cyhoedd
- Rhifau diogel heb eu cofnodi'n gywir
- Rhifau ffôn anghywir ar gyfer dioddefwyr
- Manylion trosedd hynod gyfyngedig / dryslyd

Cafwyd 51 o atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed rhwng 1 Tachwedd a 31 Rhagfyr.

**Cam gweithredu: Diweddariad ar asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data i'w gael yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau yr wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a'r Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA).

Nodwyd bod gwasanaeth IDVA wedi cael 1,645 o atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod rhwng y chwarter cyntaf a'r trydydd chwarter, o'i gymharu â 1,290 ar yr un adeg yn 2023–2024.
Nodwyd bod 1,418 o ddefnyddwyr wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth, a oedd yn cyfateb i ychydig dros 88% o ddioddefwyr yn cael cymorth.

Nodwyd bod gwasanaeth ISVA wedi cael 540 o atgyfeiriadau hyd yma ar gyfer 2024–2025, o'i gymharu â 436 ar gyfer yr un cyfnod yn 2023–2024, a 438 ar gyfer 2022–2023. Roedd hyn yn gynnydd o ychydig dros 23% yn y ddau achos.

Dechreuodd cynllun peilot y gwasanaeth cymorth stelcio ar gyfer defnyddwyr risg uchel y gwasanaeth ar 1 Medi, a nodwyd ei fod yn cael ei redeg gan Paladin. Nodwyd bod y cynllun peilot yn rhedeg am 12 mis tan 31 Awst 2025.

Rhwng 1 Medi a 28 Chwefror, cafwyd 16 o atgyfeiriadau gan Heddlu Dyfed-Powys, tri gan wasanaethau cam-drin domestig a thri hunanatgyfeiriad. Nodwyd bod cydlynydd stelcio Heddlu Dyfed-Powys yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch-eiriolwr achos stelcio annibynnol o Paladin i adolygu atgyfeiriadau.

Nodwyd bod Paladin wedi darparu hyfforddiant i 32 o weithwyr proffesiynol o sefydliadau rheng flaen ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Roedd diwrnod hyfforddi pellach wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2025. Roedd yr uwch-eiriolwr achos stelcio annibynnol wedi rhoi cyflwyniadau i nifer o fforymau a sefydliadau cymorth i ddioddefwyr.

Darparwyd trosolwg o gyllid grant allanol yn y cyflwyniad ynghylch cyllid ar gyfer mannau â risg uchel o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, Strydoedd Saffach 5 a'r ddyletswydd trais difrifol.

Yn ystod 2024–2025, dyfarnwyd £344,277.62 mewn cyllid grant a rhoddion gan y CHTh.

- Dyrannwyd 40.42% i'r heddlu.
- Dyrannwyd 42.78% i sefydliadau cymunedol.
- Dyrannwyd 16.8% ar gyfer ymrwymiadau plismona rhanbarthol a/neu Gymru gyfan.

Dosbarthwyd 65.42% o'r holl gyllid grant i weithgareddau yn cynorthwyo dioddefwyr. Roedd y rhain yn cynnwys cyfraniadau i'r canlynol:

- Gweithgaredd atal / ymyrraeth stelcio (adnoddau ar gyfer cynllun peilot Paladin a'r heddlu – un swydd am 50% o'r gost)
- Darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig (arian cyfatebol Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Strydoedd Saffach 5)
- Tîm Troseddu Economaidd – adnoddau'r heddlu (un swydd am 100% o'r gost, a dwy swydd am 50% o'r gost)
- Rhaglenni rhanbarthol ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig
- Rhaglen glasbrint trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Cymru gyfan

## 5. Unrhyw fater arall

Diolchodd aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu i'r Prif Gwnstabl am ei waith o fewn yr heddlu, a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 30 Ebrill 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| SPB10 | Gwerthusiad o Ymgyrch Soteria i'w rannu gyda'r CHTh mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona. | Yr heddlu |
| SPB011 | Yr heddlu i gadarnhau'r broses ar gyfer Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau) a chael mynediad at Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC). | Yr heddlu |
| SPB012 | Y SCHTh i siarad â chynghorau tref a chymuned i gasglu adborth ynghylch eu rhyngweithiadau â thimau plismona ac atal bro. | SCHTh |
| SPB013 | Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona. | Yr heddlu |

DIWEDD